



## Amcan Llesiant 13

Amgylchedd Iach a Diogel - Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth

Y canlynol yw ein hymrwymiaidau a'n sylwadau cynnydd diwedd blwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2017/18.

Ymrwymiaidau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<b>A - Cynnal a Chadw Ffyrdd a Seilwaith</b>		
<p>Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn cysylltiadau seilwaith trafndiaeth strategol er mwyn cefnogi datblygu economaidd.</p> <p>a. Dal ati i adeiladu Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin.</p> <p>b. Byddwn yn parhau â datblygiad Cam 2 Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands ac yn sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer y cynllun yn 2017/18</p> <p>c. Dechrau ar y gwaith o wella'r seilwaith priffyrdd yn Rhydaman er mwyn gwella llif y traffig a lleihau tagfeydd.</p> <p>d. Byddwn yn modelu llif y traffig yn Llanelli ac yn datblygu model trafndiaeth ar gyfer yr ardal. <i>(Cam gweithredu rhif 12679)</i></p>	✓	<p>Rydym wedi gwneud rhagor o gynnydd yn Chwarter 4. Mae gwaith ar y safle wedi parhau drwy ddwy elfen ar wahân o gam gorllewinol Llwybr Dyffryn Tywi. Dechreuodd gwaith paratoi'r safle a gwaith clirio cychwynnol ar gyfer Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands, er mwyn galluogi'r prif waith i fynd rhagddo hyd at Haf 2018. Mae'r gwaith bron â gorffen yng nghyffordd Stryd y Gwynt / Tirydail er mwyn hwyluso'r gwaith o adeiladu'r brif gylchfan yn haf 2018.</p>
<p>Byddwn yn diweddarau'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd i ddarparu strategaeth ar gyfer rheoli a chynnal seilwaith priffyrdd y sir. <i>(Cam gweithredu rhif 12681)</i></p>	✓	<p>Datblygwyd dogfen bolisi y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd ac ar hyn o bryd mae'n cael ei hadolygu gan y tîm rheoli a'r Pennaeth Gwasanaeth.</p>
<p>Byddwn yn datblygu, cynnal a darparu rhaglen gyfalaf cynnal a chadw 3 blynedd ar gyfer Cynnal a Chadw Priffyrdd ar sail blaenoriaeth i sicrhau bod y defnydd mwyaf effeithiol yn cael ei wneud o'r arian cyfyngedig sydd ar gael. <i>(Cam gweithredu rhif 12682)</i></p>	✓	<p>Yn 2017/18 roeddem wedi trin wyneb 74km o'n ffyrdd, gosod wyneb newydd ar 3.8km o'n ffyrdd a thrwsio 1633 o dyllau yn y ffordd.</p>
<p>Byddwn yn datblygu, cynnal a darparu rhaglen gyfalaf cynnal a chadw 3 blynedd ar gyfer cryfhau pontydd a'u hadnewyddu. Blaenoriaethu cyflawni'r cynlluniau o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael. <i>(Cam gweithredu rhif 12683)</i></p>	✓	<p>Rydym wedi parhau â'n cynllun i atgyfnerthu a chyfnewid pontydd ym Mhont Henllan, Ffarmers; Pont Lleddfu Pontnewydd, Carwe a Fferm Ffrwd, Pinged - gwaith adeiladu wedi'i gwblhau. Pont Doethie, Rhandirmwyn - mae'r cynllun wedi'i ohirio oherwydd materion â pherchnogion tir preifat. Mae gwaith dylunio ar ddau gynllun cymorth priffyrdd yn parhau. Mae gwaith dylunio ar bedwar cynllun cyfnewid pontydd yn parhau. Seilir y % gwblhau ar union gostau a anfonebir yn 17/18 ac maent yn gymharol i'r gyllideb a ganiateir.</p>
<p>Byddwn yn gwella'r modd rydym yn rhoi gwybod am ein gwaith cynnal a chadw priffyrdd cynlluniedig ac adweithiol er mwyn hwyluso gwell cydlynu a chyfathrebu â'r cyhoedd, busnesau a thwristiaid. <i>(Cam gweithredu rhif 12684)</i></p>	✓	<p>Drwy gydol y flwyddyn mae systemau wedi'u ffurfweddu i alluogi timau Dylunio i gyflwyno hysbysiadau Gwaith Stryd ac maent wedi'u diweddarau gan dimau Gweithredol wrth i'r gwaith gael ei wneud. Mae timau dylunio (cleientiaid) a thimau gweithredol wedi cael hyfforddiant yn y defnydd o systemau a bellach maent yn gallu hysbysu cynlluniau newydd a diweddarau gydag union ddyddiadau dechrau a gorffen cynlluniau</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		gwaith ffordd. Mae gwaith mawr wedi'i gyhoeddi drwy'r wasg.
Byddwn yn adolygu ein system ar gyfer atgyweirio a rhoi gwybod am ddiffygion ar y Priffyrdd er mwyn sicrhau bod y system yn effeithlon ac yn effeithiol. <i>(Cam gweithredu rhif 12685)</i>	✓	Mae'r adolygiad o systemau rheoli priffyrdd yn digwydd ar hyn o bryd ac mae gwelliannau'n cael eu gwneud drwy'r amser. Mae gwelliannau o ran adrodd a chofnodi diffygion yn amcan allweddol ac mae cyflwyno cofnodi symudol i dimau gwaith yn allweddol i'r datblygiad hwn. Mae'r cynllun peilot yn mynd rhagddo ac mae'r rhyngwyneb rhwng asedau priffyrdd a systemau rheoli swydd wedi cael ei brofi'n llwyddiannus. Yn amodol ar gytundeb, gellir bwrw ati â chynllun prawf a chyfnod prawf ddechrau 2018/19. Mae adolygiad adrannol ehangach o systemau TG yn debygol effeithio ar y cam hwn.
Byddwn yn adolygu ac yn alinio cronfeydd data'r rhwydwaith priffyrdd i atgyfnerthu ein cofnodion priffyrdd a chreu cofrestr gywir a chyson o'r holl briffyrdd cyhoeddus. <i>(Cam gweithredu rhif 12686)</i>	✓	Mae'r adolygiad o gofnodion wedi dechrau ac mae tîm prosiect gwaith yn cwrdd yn rheolaidd i gynnal yr adolygiad a diweddarau cofnodion/cronfeydd data. Hyd yn hyn mae 24 o sesiynau gweithio wedi bod a 222 o anghysondebau unigol wedi eu cywiro. Amcangyfrifir y bydd yr adolygiad o'r rhwydwaith cyfan wedi'i gwblhau erbyn Ebrill 2021. Ystyir bod y gwaith a gynhelir o werth uchel ac na fydd y cynnydd o fewn y flwyddyn yn golygu y bydd y rhwydwaith cyfan yn cael ei gwblhau. Fodd bynnag, bydd hwn yn welliant sylweddol i'r cofnodion. Mae'r targed a adroddwyd yn adleisio'r cynnydd wnaed yn ystod y flwyddyn. Mae'r gweithgor wedi ei hen sefydlu bellach a bydd yn adolygu anghysondebau uchel eu blaenoriaeth wrth iddynt godi drwy gydol y flwyddyn ac yn barhaus. Mae'r dull cydweithredol o fewn yr is-adran newydd hon yn amlwg yn y prosiect hwn.
Byddwn yn lleihau'r ffyrdd dosbarth A sydd mewn cyflwr gwael <i>(PAM/020)</i> <i>Canlyniad 2016/17 - 4.3% / Targed 2017/18 - 4.3%)</i>	✓	<b>4.1%</b> o ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (A) yn Sir Gaerfyrddin mewn cyflwr gwael. Mae'r canlyniad hwn yn dangos gwelliant cyson o gymharu â 4.3% y llynedd a thystiolaeth fod buddsoddiad a dargedwyd wedi cyflawni canlyniadau.
Byddwn yn lleihau cymaint â phosibl ar % y ffyrdd dosbarth B sydd mewn cyflwr gwael <i>(PAM/021)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 3.5% - / Targed 2017/18 - 4.3%)</i>	✓	<b>3.1%</b> o ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) yn Sir Gaerfyrddin mewn cyflwr gwael. Mae'r canlyniad hwn yn dangos gwelliant cyson o gymharu â 3.5% y llynedd a thystiolaeth fod buddsoddiad a dargedwyd wedi cyflawni canlyniadau.
Byddwn yn lleihau'r ffyrdd dosbarth C sydd mewn cyflwr gwael <i>(PAM/022)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 11.6% / Targed 2017/18 - 13%)</i>	✓	<b>11.9%</b> o ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) yn Sir Gaerfyrddin mewn cyflwr gwael. Rhagorwyd ar y targed o 13%, fodd bynnag, yn wahanol i ffyrdd A a B bu dirywiad bach o gymharu â ffigur y flwyddyn cynt o 11.6%. Dengys y canlyniad bod 298km o ffordd dosbarth C mewn cyflwr gwael (coch). Byddwn yn ystyried lleihau buddsoddi mewn ffyrdd A a B mewn blynyddoedd i ddod er mwyn targedu dosbarthiadau ffyrdd is.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn lleihau i'r graddau mwyaf posibl ffyrdd (A), (B) a (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (THS/012)</p> <p>(Canlyniad 2016/17 – 9.2% / Targed 2017/18 – 10.3%)</p>	✓	<p><b>9.3% o ffyrdd A, B ac C</b> yn Sir Gaerfyrddin mewn cyflwr gwael. Er y rhagorwyd ar y targed mae rhywfaint o ddirywiad yn y cyflwr yn gyffredinol o achos y dirywiad mewn ffyrdd dosbarth C.</p>
<b>B – Cludiant Teithwyr</b>		
<p>Byddwn yn parhau i reoli gwasanaeth "Trawscymru" rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth ar ran Llywodraeth Cymru ac yn anelu at sicrhau cyllid fel bod y gwasanaeth yn gallu parhau yn 2017/18. (Cam gweithredu rhif 12687)</p>	✓	<p>Rydym wedi parhau i reoli gwasanaethau Trawscymru ar ran Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y fenter teithio am ddim ar y penwythnos</p>
<p>Byddwn yn gweithio gyda'r gymuned a chynghorau sir Ceredigion a Phenfro i helpu i gynnal gwasanaethau trafniadaeth integredig Bwcabus a gwasanaethau strategol allweddol. (Cam gweithredu rhif 12688)</p>	✓	<p>Mae'r Awdurdod wedi parhau i gefnogi a datblygu'r cynllun BWCABUS llwyddiannus fel rhan o'r prosiect LINC ehangach.</p>
<p>Byddwn yn adolygu darpariaeth y cynllun "Ceir Cefn Gwlad" gyda sefydliadau partner ac yn ystyried cyfleoedd i rannu adnoddau gyda thrafnidiaeth iechyd nad yw'n ymdrin ag achosion brys. (Cam gweithredu rhif 12689)</p>	✓	<p>Rydym wedi cynnal Cynllun Ceir Cefn Gwlad yn ystod y flwyddyn a byddwn yn parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol i ddarparu'r cynllun hanfodol hwn yn y dyfodol.</p>
<p>Byddwn yn parhau i gefnogi darparu'r Rhaglen Moderneiddio Addysg - ailgynllunio rhwydweithiau er mwyn hwyluso symudiad disgyblion fel y nodir yn ein polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol. (Cam gweithredu rhif 12690)</p>	✓	<p>Rydym wedi parhau i ddarparu cludiant ysgol yn unol â'r Rhaglen Moderneiddio Addysg ac yn gweithio fel rhan o dîm y Rhaglen Moderneiddio Addysg i werthuso goblygiadau cludiant ysgol datblygiadau'r dyfodol</p>
<p>Byddwn yn parhau i adolygu polisi'r Awdurdod ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol/coleg ac i reoli'r galw er mwyn sicrhau cymaint o effeithlonrwydd â phosibl. (Cam gweithredu rhif 12691)</p>	✓	<p>Mae'r Awdurdod wedi parhau i adolygu'r polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol ac yn dal i reoli costau'n effeithiol drwy reoli'r galw'n effeithiol ac adolygiadau o'r rhwydwaith.</p>
<p>Byddwn yn anelu at sicrhau bod gan o leiaf 79% o oedolion 60+ gerdyn teithio rhatach (THS/007)</p> <p>(Canlyniad 2016/17 - 81.4% / Targed 2017/18 - 79%)</p>	✓	<p><b>Canlyniad 2017/18 80.6%</b>, ychydig yn llai na'r flwyddyn flaenorol ond yn cydymffurfio â'r targed. Mae 44,460 o bobl dros 60 oed yn Sir Gaerfyrddin yn dal cerdyn teithio rhatach.</p>
<b>C - Llwybrau Beicio</b>		
<p>Byddwn yn dechrau adeiladu Llwybr Beicio Dyffryn Tywi ac yn parhau i ddatblygu'r cynllun llawn. (Cam gweithredu rhif 12692)</p>	✓	<p>Mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer y rhan Orllewinol (Caerfyrddin i Nantgaredig) ac mae cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer cyflawni rhannau gan y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig a Llywodraeth Cymru. Mae'r holl waith yn amgueddfa Abergwili a Felin-wen ar y gweill/wedi ei gwblhau. Mae'r trafodaethau hyn ynghylch tir yn mynd rhagddynt yn dda ar lwybrau Gorllewinol a Dwyreiniol. Yn ychwanegol at hyn mae Paratodau ar gyfer cais cynllunio ar y rhan Ddwyreiniol (gan gynnwys arolygon amgylcheddol manwl) yn mynd rhagddynt yn dda. Mae ceisiadau llwyddiannus am arian ar gyfer 2018/19 wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn i ni i gyd barhau i wneud cynnydd o ran y gwaith eleni.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<b>D – Diogelwch Ffyrdd</b>		
<p>Byddwn yn gweithredu strategaeth diogelwch ffyrdd Sir Gaerfyrddin i gyrraedd y targedau cenedlaethol ar gyfer lleihau nifer yr anafusion erbyn 2020, a pharhau i gyflawni'r camau a amlinellwyd yn y Strategaeth Diogelwch Ffyrdd <i>(Cam gweithredu rhif 12693)</i></p>	✓	<p>Mae Uned Diogelwch Ffyrdd y Cyngor wedi cydweithio ag ystod o asiantaethau diogelwch y cyhoedd yn Sir Gaerfyrddin i gyflawni Strategaeth Diogelwch Ffyrdd Sir Gaerfyrddin. Mae amryw o fentrau addysg, peirianeg a gorfodi wedi eu cynnal gan Yr Uned Diogelwch Ffyrdd a'i hasiantaethau partner yn 2017/18 er mwyn cyflawni prif amcanion y strategaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diogelwch ffyrdd yng nghefn gwlad: Rydym wedi defnyddio'r dyraniad grant diogelwch ffyrdd llawn gan Lywodraeth Cymru o <b>£445,500</b> i gyflawni rhaglen trin llwybr <b>2017/18</b>: - [1] B 4297, hanner ffordd i Talyclun, [2] B 4297 Tŷ-croes i Gorslas) Rydym wedi defnyddio'r dyraniad <b>refeniw</b> diogelwch ffyrdd llawn gan Lywodraeth Cymru o £140,000 i gwblhau'r gwaith o gyflawni rhaglen addysg diogelwch ffyrdd 2017/18. Roedd y rhaglen yn darparu hyfforddiant diogelwch ffordd drwy Pass Plus Cymru, hyfforddiant i yrwyr hŷn, hyfforddiant i yrwyr ifanc, Kerbcraft, Hyfforddiant Beiciau Modur, Hyfforddiant Seiclo Safonau Cenedlaethol. Rydym wedi cynnal digwyddiadau ymgysylltu amlasiantaeth â beicwyr modur (un o'r grwpiau defnyddwyr ffordd sydd â'r risg fwyaf o gael anaf ar y briffordd). Rydym wedi parhau â dull amlasiantaethol o leihau ymddygiad amhriodol ac anghyfreithlon gan ddefnyddwyr ffordd, gan gynnwys goryrru, yfed a gyrru, cymryd cyffuriau a gyrru, a gyrru'n ddiotal ac yn beryglus. Rydym wedi parhau i wella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o ddata anafusion er mwyn datrys problemau o ran diogelwch ffyrdd. Rydym wedi gwario £140,000 yn 2017/18 ar ffyrdd a dargedwyd.</li> </ul>
<p>Byddwn yn parhau i adolygu argaeledd llwybrau cerdded diogel i'r ysgol ac i ddatblygu prosiect mapio er mwyn rhoi mwy o eglurder i ymgeiswyr. <i>(Cam gweithredu rhif 12694)</i></p>	✓	<p>Yn 2017/18 cafodd 33 o asesiadau diogelwch / technegol o ran cerdded o'r cartref i'r ysgol eu cynnal ledled y sir, yn unol â Darpariaeth Teithio Dysgwr ac Arweiniad Gweithredol 2014, Pennod 5 Asesu Risgiau Llwybrau Cerdded i'r Ysgol.</p>
<p>Byddwn yn gweithio i ostwng nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd er mwyn cyrraedd y gostyngiad o 40% erbyn 2020 <i>(5.5.2.21)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 102 / Targed 2017/18 - 87)</i></p>	✓	<p><b>83 o bobl wedi eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol</b> ar ffyrdd Sir Gaerfyrddin yn 2017, mae hwn yn ostyngiad ar 102 yn 2016. Mae Uned Diogelwch Ffyrdd y Cyngor wedi cydweithio ag ystod o asiantaethau diogelwch y cyhoedd i gyflawni Strategaeth Diogelwch Ffyrdd Sir Gaerfyrddin.</p>
<p>Byddwn yn gweithio i ostwng nifer y beicwyr modur sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd er mwyn cyrraedd y gostyngiad o 25% erbyn 2020 <i>(5.5.2.22)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 – 33 / Targed 2017/18 - 15)</i></p>	x	<p><b>19 o feicwyr modur wedi eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol</b> ar ffyrdd Sir Gaerfyrddin yn 2017, mae hwn yn ostyngiad ar 33 yn 2016 ond yn uwch na'r gostyngiad a dargedwyd sef 15 neu lai. Mae Uned Diogelwch Ffyrdd y Cyngor wedi cydweithio ag ystod o asiantaethau diogelwch y cyhoedd i gyflawni Strategaeth Diogelwch Ffyrdd Sir Gaerfyrddin.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn gweithio i ostwng nifer y bobl ifanc (rhwng 16-24 oed) sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd er mwyn cyrraedd y gostyngiad o 40% erbyn 2020 <i>(5.5.2.23)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 – 19 / Targed 2017/18 - 25)</i></p>	✓	<p><b>24 o bobl ifanc 16-24 oed wedi eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol</b> ar ffyrdd Sir Gaerfyrddin yn 2017, mae hwn yn gynnydd ar 2016 sef 19, ond mae o fewn y gostyngiad a dargedwyd o 25 neu lai. Mae Uned Diogelwch Ffyrdd y Cyngor wedi cydweithio ag ystod o asiantaethau diogelwch y cyhoedd i gyflawni Strategaeth Diogelwch Ffyrdd Sir Gaerfyrddin.</p>
<b>E – Moderneiddio ein fflyd cerbydau</b>		
<p>Byddwn yn cwblhau ein buddsoddiad mewn cerbydau newydd yn ystod y flwyddyn. Gwerth y buddsoddiad fydd £1.8 miliwn ar ddiwedd 2017/18 yn unol â'n rhaglen strategol i adnewyddu'r fflyd. Mae'r cerbydau mwy effeithlon yn cyfrannu tuag at leihau allyriadau CO2. <i>(Cam gweithredu rhif 12695)</i></p>	✓	<p>Mae'r holl gerbydau sy'n ofynnol fel rhan o'r rhaglen i gael fflyd newydd wedi cael eu prynu ar gyfer blwyddyn 2017/2018. Mae'r gwaith o ddarparu 7 o faniau gofal cymdeithasol yn rhedeg yn hwyr felly bydd yn cyfrannu at ffigwr 2018/2019. Mae gweddill y buddsoddiad ar gyfer y flwyddyn wedi cael ei drosglwyddo i 2018/2019 oherwydd gofynion gweithredol.</p>
<p>Byddwn yn lleihau maint ein fflyd cerbydau gweithredol gan 1% dros y flwyddyn. <i>(Cam gweithredu rhif 12696)</i></p>	✓	<p>Mae adolygiad o'r fflyd o fewn yr is-adran gwastraff yn mynd rhagddo ac nid oes penderfyniad wedi'i wneud hyd yn hyn ynghylch y niferoedd terfynol o ran cwtogi ar gerbydau yn ystod 2017/2018. Mae'r adolygiad o fflyd yr is-adran gwastraff wedi rhedeg mewn i 2018/2019 ond bydd yn parhau i ostwng niferoedd o fewn yr is-adran. Mae nifer cerbydau gweithredol y gwasanaeth yn cael ei adolygu'n barhaus. Mae archeb ar gyfer dau ysgubwr trydan i'w defnyddio gan gerddwyr wedi'u cyflwyno gyda golwg ar leihau nifer yr ysgubwyr bach sy'n cael eu gyrru a ddefnyddir ar hyn o bryd yng nghanol trefi.</p>